Bywgraffiad • Biography

Cyng. Siân Gwenllian

Siân Gwenllian sy'n cynrychioli pentre'r Felinheli yn Arfon ar Gyngor Gwynedd. Hi oedd Dirprwy Arweinydd Cyngor Gwynedd hyd Mai 2014 a hi oedd yr Aelod Cabinet Addysg a'r Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc. Yn ddiweddar, cafodd ei dewis i sefyll fel Ymgeisydd Cynulliad Plaid Cymru dros Arfon yn Etholiad Cymru 2016. Ymunodd â Chyngor Gwynedd i gynrychioli ward Y Felinheli (ble cafodd ei magu) yn 2008 ac fe'i phenodwyd yn Aelod Portffolio Cyllid yn 2010. Mae'n gynghorydd cymuned ac yn lywodraethwr ysgol ers dros 20 mlynedd ac yn weithgar mewn sawl menter leol.

Mae hi yn dilyn gyrfa mewn newyddiaduraeth ers 35 mlynedd. Cychwynnodd ei gyrfa gyda'r BBC yn 1980 ar ôl cwblhau diploma ôl-radd mewn newyddiaduraeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Bu'n gweithio i raglen materion cyfoes Y Byd ar Bedwar, cwmni Golwg, fel swyddog y wasg ac fel newyddiadurwr/ymgynghorydd cysylltiadau cyhoeddus ar liwt ei hun.

Hi oedd Dirprwy Lywydd Urdd Myfyrwyr Aberystwyth 1977-78 ar ôl graddio mewn Daearyddiaeth. Roedd yn aelod o Bwyllgor Gwaith Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru. Mae Siân yn ymgyrchydd brwd dros y Gymraeg, hawliau merched, annibyniaeth i Gymru a thegwch a chyfiawnder cymdeithasol. Mae hi wedi magu 4 o blant ar ben ei hun ar ôl colli ei gŵr i ganser 15 mlynedd yn ôl.

Cllr. Siân Gwenllian

Siân Gwenllian represents the village of Y Felinheli in Arfon on Gwynedd Council. She was Deputy Leader of Gwynedd Council until May 2014 and she was also the Cabinet Member for Education and the Lead Member for Children and Young People. Recently she was chosen as the Plaid Cymru candidate for the Arfon constituency for the Welsh Election 2016. Siân joined the Council, representing the Felinheli ward (where she was brought up) in 2008. In 2010 she was appointed Finance Portfolio Leader. She has been a community councillor and school governor for over 20 years and is actively involved in several local initiatives.

For 35 years she has followed a career in journalism. She started her career with the BBC in 1980 after completing a post-graduate diploma in journalism at Cardiff University. She has worked for the current affairs programme Y Byd ar Bedwar, Golwg, as a Press Officer and is now a self-employed journalist/Public Relations consultant.

She was the Deputy President for Aberystwyth Guild of Students during 1977-78 after graduating in Geography. She was a member of the National Union of Students (Wales) Executive Committee. Over the years Siân has campaigned for the Welsh language, women's rights, independence for Wales and fairness and social justice. She has raised 4 children on her own after her husband died of cancer 15 years ago.